WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Sir Gâr

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



**Cyf: 394A2010**
Llun trwy garedigrwydd Cyngor Sir Gâr
Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Sir Gâr gan Non Jenkins (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Helen Keatley (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

# Mae trefniadau'r Cyngor a'i arweinyddiaeth gref yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol os yw'r Cyngor cyfan yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau gwell i bobl Sir Gâr gydag adnoddau cyfyngedig

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Gâr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n gryf ar wella ac mae'n paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod anodd sydd i ddod gan gydnabod y bydd angen ymdeimlad o realaeth ymhob rhan o'r cyngor ac y bydd angen canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol 6

Mae arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol a gweladwy'r Cyngor wedi llywio penderfyniadau anodd a chyflawniadau sylweddol mewn rhai meysydd 6

Mae'r Cyngor yn gwella'n gyson gyda rhai trefniadau sefydledig ac mae'n parhau i atgyfnerthu trefniadau eraill i sicrhau gwelliannau ac enillion effeithlonrwydd yn y dyfodol 8

Mewn hinsawdd ariannol heriol, mae gwelliannau yn y dyfodol yn dibynnu ar sicrhau bod gan y Cyngor cyfan ffocws realistig ar gyflawni gwell canlyniadau i bobl Sir Gâr 8

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella 10

Mae'r Cyngor yn dangos cryfderau penodol o ran arwain gwelliant a chydweithredu i sicrhau gwelliant ac mae'n parhau i atgyfnerthu trefniadau eraill, yn enwedig o ran rheoli ystadau a phobl 10

Arweinir y Cyngor mewn modd cadarn a chreadigol, a ategir gan drefniadau rheoli ariannol cadarn a dull ymroddedig o gydweithio 10

Mae trefniadau'r Cyngor i ddatblygu strategaeth a pholisi yn gydlynol ac mae'n parhau i wella'i drefniadau i reoli prosiectau ond mae'n cydnabod yr angen i ddangos sut mae'r trefniadau hyn yn cyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion 12

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran atgyfnerthu ei drefniadau i reoli pobl ac ystadau er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion yn llawn 13

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.

3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol a oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol sef Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC nad oedd modd dianc rhag y ffaith y byddai angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir - ni ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

- 'A yw trefniadau Cyngor Sir Gâr (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'

7 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod trefniadau'r Cyngor a'i arweinyddiaeth gref yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol os yw'r Cyngor cyfan yn canolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i bobl Sir Gâr gydag adnoddau cyfyngedig.

8 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o



gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n gryf ar wella ac mae'n paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod anodd sydd i ddod gan gydnabod y bydd angen ymdeimlad o realaeth ymhob rhan o'r cyngor ac y bydd angen canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol; ac
- mae'r Cyngor yn dangos cryfderau penodol o ran arwain gwelliant a chydweithredu i sicrhau gwelliant ac mae'n parhau i atgyfnerthu trefniadau eraill, yn enwedig o ran rheoli ystadau a phobl.

9 Gan mai asesiad corfforaethol rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

## Arolygiad arbennig

10 Ar sail yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur nac wedi argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd i'w gwella

12 Nododd yr asesiad y meysydd canlynol lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

**Arddangosyn 1: Meysydd i'w Gwella**

C1 Dylai'r Cyngor ystyried lleihau nifer ei bwyllgorau craffu er mwyn gwella'u heffeithiolrwydd ymhellach.

C2 Mae angen i'r Cyngor cyfan sicrhau ei fod yn cydweithio i gytuno ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig realistig.

C3 Dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach ddull o gyflawni gwelliannau sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn dangos effaith ei brosiectau, ei gynlluniau a'i gamau gweithredu ar fywydau pobl Sir Gâr. Wrth wneud hynny, gallai fod o fudd i'r Cyngor wneud y canlynol:

- cyfuno a gwerthuso'r data ar welliant a gesglir ganddo i ddangos i ba raddau y mae'n cyflawni gwell canlyniadau;
- adolygu a herio'i gamau gweithredu, ei fesurau a'i dargedau o ran gwelliant er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella yn effeithiol; ac
- egluro'r cysylltiadau rhwng ei gamau gweithredu allweddol a'r mesurau a'r canlyniadau perfformiad penodol y mae'n ceisio'u cyflawni.

C4 Dylai'r Cyngor atgyfnerthu trefniadau rheoli grantiau er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau yn gadarnach ac yn lliniaru'r risg o adfachu arian.

# Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n gryf ar wella ac mae'n paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod anodd sydd i ddod gan gydnabod y bydd angen ymdeimlad o realaeth ymhob rhan o'r cyngor ac y bydd angen canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dyfodol

### Mae arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol a gweladwy'r Cyngor wedi llywio penderfyniadau anodd a chyflawniadau sylweddol mewn rhai meysydd

**13** Mae gan y Cyngor dîm arwain sefydlog a hirsefydledig. Bu'r Prif Weithredwr yn ei swydd ers 2002 ac yn fuan ar ôl ei benodi aeth ati'n gyflym i ailstrwythuro trefniadau rheoli'r Cyngor er mwyn adeiladu diwylliant corfforaethol cryfach. Er bod y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yn newydd, mae'r rhan fwyaf o'r Cyfarwyddwyr ar y Timau Rheoli Corfforaethol yn hirsefydlog.

**14** Arweiniwyd y Cyngor gan yr un Arweinydd Annibynnol ers 1999, er iddi arwain gweinyddiaethau clymbleidiol gyda grwpiau gwleidyddol gwahanol yn y cyfnod hwnnw. Mae'r weinyddiaeth bresennol yn glymblaid rhwng y grŵp Annibynnol a'r grŵp Llafur, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio gweinyddiaeth fwyafrifol.

**15** Mae gan y Cyngor hanes hir o wleidyddiaeth leol weithredol sydd wedi golygu bod y gwaith o wneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â gwella gwasanaethau a sicrhau enillion effeithlonrwydd yn heriol. Fodd bynnag, mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi pennu cyfeiriad cadarn, gweladwy ac uchelgeisiol ar gyfer y Cyngor o ran trawsnewid a chodi proffil Sir Gâr, ac mae'r Cyngor wedi sicrhau cyflawniadau sylweddol mewn rhai meysydd.

**16** Mae ei brif gyflawniadau'n cynnwys y canlynol:

- Y nifer sylweddol o brosiectau adfywio ar raddfa fawr a gyflawnwyd ar draws y sir, yn cynnwys codi nifer o adeiladau ysgol newydd a chartrefi gofal ychwanegol.
- Ei berfformiad gwell o ran rheoli gwastraff a'r cynnydd a'r lefel o ymgysylltu a welwyd ganddo hyd yma o ran cyflawni rhaglen Safon Ansawdd Tai Sir Gâr yn gynt.
- Y trefniadau cydweithio a ddatblygwyd gyda rhai partneriaid allweddol o fewn y sir a thu hwnt iddi, yn cynnwys cydweithio â'r gwasanaethau iechyd, yr heddlu, y sector gwirfoddol a chontractwyr lleol. Mae hyn yn cynnwys y gwelliannau sylweddol a wnaed ganddo o ran ei gydberthynas â'r gwasanaethau iechyd wrth ddarparu gwell gwasanaethau gofal



cymdeithasol ers yr ail Adolygiad ar y Cyd o Wasanaethau Cymdeithasol yn 2005.

**17** Fodd bynnag, ni fu'r llwybr tuag at welliant yn un hawdd ac mae nifer o'i gynlluniau mawr i wella gwasanaethau wedi wynebu her wleidyddol a chyhoeddus sylweddol, yn enwedig o ran y manylion sy'n tanategu'r strategaethau cyffredinol. Mae'r cynlluniau gwella hyn yn cynnwys gweithredu ei raglen *Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg* a'i raglen *Datblygu Gwasanaethau Modern ar gyfer Pobl Hŷn: Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Gwasanaethau sy'n ymwneud ag Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai i bobl dros 65 oed*.

**18** Er bod y Cyngor wedi lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion ac wedi gwella cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal, mae ei berfformiad yn y meysydd allweddol hyn yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi gwerthuso'r rhaglen Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg ac wedi sefydlu sylfaen da ar gyfer sicrhau cynnydd y rhaglen ysgolion cynradd. Mae grŵp craffu gorchwyl a gorffen y Cyngor yn ystyried y cynigion i weithredu'r Strategaeth Comisiynu ar y Cyd. Er ei fod yn arfer da i waith craffu helpu i lywio penderfyniadau a pholisïau allweddol, mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw hyn yn achosi oedi o ran cyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau modern i blant a phobl hŷn yn Sir Gâr.

**19** Ar 30 Medi 2009 cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol. Cadarnhaodd yr adroddiad hwn y paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion statudol ac roedd yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, amlygodd yr Archwilydd Penodedig yr angen i wella ansawdd y cofnodion ategol, yn arbennig o ran asedau sefydlog.

**20** Yn Llythyr Archwilio Tachwedd 2009, nododd yr Archwilydd Penodedig fod ansawdd a chywirdeb ceisiadau a ffurflenni grantiau ar gyfer 2007-08 wedi dirywio a bod angen gwella trefniadau o ran ymdrin â grantiau. Yn ogystal nododd yr Archwilydd Penodedig fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09.

**21** Y materion allweddol a oedd yn wynebu'r Cyngor ar y pryd oedd bod y Cyngor yn parhau i wneud gwelliannau ond bod angen iddo werthuso effaith ei fentrau'n llawn. Daeth y Llythyr i'r casgliad canlynol:

- Roedd y Cyngor yn edrych i'r dyfodol ac yn arloesol ac roedd ganddo drefniadau i ategu ei agenda newid. Roedd wedi cael llwyddiant nodedig ond nid oedd bob amser yn gwerthuso effaith pob menter.

- Roedd y broses o ddarparu gwasanaethau yn dda ac yn gwella yn y rhan fwyaf o feysydd, ond roedd angen i'r Cyngor gymryd camau pellach i gynnal newid a pharatoi'n well ar gyfer heriau yn y dyfodol.

## Mae'r Cyngor yn gwella'n gyson gyda rhai trefniadau sefydledig ac mae'n parhau i atgyfnerthu trefniadau eraill i sicrhau gwelliannau ac enillion effeithlonrwydd yn y dyfodol

22 Ar y cyfan caiff tîm rheoli'r Cyngor a'i ganol corfforaethol cadarn eu herio'n dda gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phwyllgorau craffu. Mae trefniadau corfforaethol y Cyngor yn gwneud cynnydd cyson yn y rhan fwyaf o feysydd.

23 Mae gan y Cyngor flaenoriaethau clir sy'n gydnaws â strategaethau, polisïau a chynlluniau eraill, a'r saith agwedd ar wella a ddisgrifiwyd yn y Mesur. Yn ogystal mae ganddo rai trefniadau partneriaeth sefydledig.

24 Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ac, ar hyn o bryd, mae'n cynllunio rhaglen sylweddol o enillion effeithlonrwydd dros y tair blynedd nesaf i sicrhau gwelliant pellach. Mae gan y Cyngor drefniadau caffael sefydledig ac mae'n parhau i atgyfnerthu'r trefniadau hynny.

25 Er mwyn cyflawni'r enillion effeithlonrwydd hyn a gwelliannau pellach, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo atgyfnerthu rhai o'i drefniadau. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ac yn atgyfnerthu ei drefniadau i gefnogi gwelliannau yn y dyfodol drwy:

- wella ei wasanaeth Rheoli Pobl a Pholisi fel bod ganddo fwy o gyfeiriad, strategaeth glir, ei fod yn rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn well ac yn cefnogi ei waith o ran gwerthuso swyddi a chyflog cyfartal;
- parhau i atgyfnerthu ac ymgorffori ei drefniadau rheoli prosiect ymhob rhan o'r Cyngor;
- adolygu nifer o wasanaethau, yn cynnwys ei drefniadau a'i strategaeth TGCh, i'w alluogi i gyfrannu opsiynau at gynllun ariannol tymor canolig y Cyngor; a
- gwella ei drefniadau rheoli asedau, yn enwedig o ran tir ac adeiladau.

## Mewn hinsawdd ariannol heriol, mae gwelliannau yn y dyfodol yn dibynnu ar sicrhau bod gan y Cyngor cyfan ffocws realistig ar gyflawni gwell canlyniadau i bobl Sir Gâr

26 Oherwydd gostyngiadau cenedlaethol mewn gwariant cyhoeddus, mae'r Cyngor yn wynebu heriau anodd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn ddiweddar cyhoeddodd ei fod yn debygol y bydd angen iddo ddileu 500 o swyddi dros y tair blynedd nesaf, er ei fod yn disgwyl cyflawni hyn drwy ddiswyddiadau gwirfoddol.

27 Mae sicrhau enillion effeithlonrwydd i lenwi bwlch ariannu sydd o leiaf £25 miliwn dros y tair blynedd yn peri heriau nid yn unig i'r arweinyddiaeth, ond hefyd i'r Cyngor cyfan. Bydd yr hinsawdd ariannol fyd-eang a phenderfyniadau'r Cyngor dros y chwe mis nesaf yn parhau i gael effaith y tu hwnt i'r etholiadau lleol yn 2012.

28 Fel y cyfryw, mae angen i'r Cyngor cyfan sicrhau ei fod yn cydweithio wrth gytuno ar gynllun ariannol tymor canolig realistig. Bydd hyn yn hanfodol os yw'r Cyngor am barhau i gyflawni gwelliannau ac enillion effeithlonrwydd pellach yn y dyfodol.

29 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu dull o gyflawni gwelliannau sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau er mwyn dangos effaith ei weithgareddau o ran gwella bywydau pobl Sir Gâr.




Drwy ganolbwyntio ar gyflawni gwell canlyniadau i'w bobl yn ystod y cyfnod anodd hwn bydd yn helpu'r Cyngor i gydweithio a rhoi gwleidyddiaeth i'r neilltu er mwyn blaenoriaethu lle y mae angen gwneud newidiadau a gwelliannau fwyaf.

30 Wrth wynebu'r dyfodol, bydd yn hanfodol rheoli disgwyliadau a morâl dinasyddion, partneriaid a staff yn ystod cyfnod mor ansicr os yw'r Cyngor am gyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol a rhoi ei hun mewn sefyllfa dda. Mae canlyniadau panel y dinasyddion, fel y nodwyd yng Nghynlluniau Gwella'r Cyngor, yn dangos er bod dinasyddion o'r farn bod y Cyngor yn llai llwyddiannus yn 2009 nag yn 2006 o ran gwella'r ffordd y mae pobl Sir Gâr yn byw ac yn gweithio, dengys y canlyniadau yn 2010 fod dinasyddion o'r farn fod y Cyngor yn fwy llwyddiannus nag yn 2009. Nodir y canlyniadau hyn yn **Ffigur 1**.

31 Bydd adeiladu ar welliannau'r llynedd yn hanfodol os yw'r Cyngor am wynebu'r cyfnod anodd sydd ohoni yn llwyddiannus.

**Ffigur 1 – Barn Panel Dinasyddion Cyngor Sir Gâr**

'Pa mor llwyddiannus ydym, yn eich barn chi, o ran gwella'r ffordd rydym yn byw ac yn gweithio?'



# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella

## Mae'r Cyngor yn dangos cryfderau penodol o ran arwain gwelliant a chydweithredu i sicrhau gwelliant, ac mae'n parhau i atgyfnerthu trefniadau eraill, yn enwedig o ran rheoli ystadau a phobl

### Arweinir y Cyngor mewn modd cadarn a chreadigol, a ategir gan drefniadau rheoli ariannol cadarn a dull ymroddedig o gydweithio

32 Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth gorfforaethol gref, dynamig a gweladwy sy'n llywio newid a gwelliant cyson o dan amgylchiadau heriol.

33 Mae ei drefniadau craffu wedi'u datblygu'n dda ac yn aml yn darparu her dda ac yn cyfrannu syniadau o ran enillion effeithlonrwydd, ond mae lle i wneud gwelliannau pellach, sicrhau enillion effeithlonrwydd pellach a datblygu gwell cysylltiadau â systemau ymgysylltu eraill.

- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i wella trefniadau craffu ac, yn ddiweddar, gynhaliodd adolygiad cymheiriaid mewnol. Nododd yr adolygiad hwnnw nifer o gryfderau ac mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella ymhellach.
- Mae'r Cyngor eisoes yn cynnal cyfarfodydd craffu ar y cyd â phartneriaid iechyd ac mae hyn yn arfer da. Gellid ehangu ymhellach ar hyn drwy wahodd neu gyfethol aelodau o'i fforymau a'i bartneriaethau amrywiol i'w bwyllgorau craffu neu grwpiau gorchwyl a gorffen, naill ai fel aelodau parhaol neu fel y bo'n berthnasol i'r pwnc dan sylw. Byddai hyn yn meithrin dealltwriaeth o heriau ehangach y Cyngor ymhlith aelodau'r fforymau, ac yn atgyfnerthu'r ffocws craffu ar ddinasyddion.
- Mae gan y Cyngor nifer fawr o bwyllgorau craffu o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru ac mae angen cefnogaeth benodedig ar bob un o'r pwyllgorau hynny. Arweiniodd hyn ar orgyffwrdd rhwng pwyllgorau a chynnull nifer o gyfarfodydd craffu ar y cyd. Ceir anghydbwysedd o ran llwyth gwaith a rhai problemau o ran presenoldeb. Yn ogystal, mae aelodau pwyllgorau yn aml yn anfon amryw ddirprwyon sy'n atal parhad ac arbenigedd o ran craffu ar faterion penodol. Dylai'r Cyngor ystyried lleihau nifer ei bwyllgorau craffu er mwyn gwella'u heffeithiolrwydd ymhellach.

34 Ategir trefniadau llywodraethu'n dda gan drefniadau TGCh sy'n ei gwneud yn bosibl cael gafael ar benderfyniadau a phapurau pwyllgorau yn hawdd ac yn amserol. Mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ac adolygu ei drefniadau caffael a'i drefniadau TGCh sefydledig ymhellach i'w helpu i wneud gwell defnydd o'i adnoddau.



35 Mae gan y Cyngor hanes hir o drefniadau rheoli ariannol corfforaethol cadarn ac mae mewn sefyllfa dda i baratoi cynllun ariannol tymor canolig er mwyn mynd i'r afael â bwlch ariannu o £25 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn paratoi nifer o opsiynau o ran effeithlonrwydd, a chynhaliwyd gweithdy cyngor cyfan ddiwedd mis Mehefin i drafod yr opsiynau hyn. Fodd bynnag, bydd y pwysau ariannol byd-eang yn parhau ymhell y tu hwnt i'r etholiadau lleol nesaf yn 2012, a bydd yn hanfodol i bob grŵp gwleidyddol gydweithio i gytuno ar enillion effeithlonrwydd a gwelliannau realistig, a'u blaenoriaethu, dros y tair blynedd nesaf. Bydd hefyd angen cysylltu'r cynllun ariannol tymor canolig â chynlluniau gwella a chynlluniau gweithlu yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu buddsoddi lle bo'u hangen fwyaf.

36 Mae gan y Cyngor ethos cadarn o weithio'n gorfforaethol a chydweithio ar draws adrannau. Mae'n gwbl ymrwymedig i gydweithio â phartneriaid allanol ac mae bob amser yn edrych am gyfleoedd i weithio gydag eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Ymhlith yr agweddau cadarnhaol ar gydweithio mae'r canlynol:

- Drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, mae ei gydberthnasau a'i drefniadau cydweithio â gwasanaethau iechyd wedi gwella'n sylweddol ers yr Adolygiad ar y Cyd diwethaf yn 2005, er bod y Cyngor yn cydnabod bod y bartneriaeth yn wynebu heriau sylweddol o ran gwella gwasanaethau ymhellach yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu cydberthynas gref â chontractwyr lleol sydd wedi creu nifer o brentisiaethau lleol ac wedi galluogi'r Cyngor i barhau â'i raglen gyfalaf yn ystod y dirwasgiad.
- Mae ei waith o ymgysylltu ag aelodau, partneriaid, dinasyddion a thenantiaid wrth weithredu Safon Ansawdd Tai Sir Gâr yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth a gefnogir gan arweinyddiaeth gref, egni, gwaith rheoli prosiect ac ymrwymiad y Cyngor cyfan.
- Mae'r Cyngor yn dymuno ystyried ei drefniadau partneriaeth â'r sector gwirfoddol ymhellach, yn enwedig sut y gallant ddarparu gwasanaethau sy'n cynnig gwell gwerth i bobl Sir Gâr a helpu ei gilydd i fynd i'r afael â'r cyfnod ariannol anodd sydd i ddod.
- Mae Pwyllgor Rheoli Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru, y mae'r Cyngor yn un o'r chwe aelod, wedi wynebu heriau o ran cydweithio dros y blynyddoedd diweddar. Er bod y rhanbarth yn wynebu heriau parhaus a heriau newydd o hyd, mae'r cynnydd diweddar a wnaed yn awgrymu parodrwydd i gydweithio.
- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn drafftio Strategaeth Gymunedol newydd yn dilyn cyfnod adolygu ar y cyd â'i bartneriaid, ac yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol cytunodd i ddefnyddio hyn fel sail ar gyfer paratoi Cynllun Sengl sy'n ymgorffori'r holl gynlluniau statudol erbyn mis Mai 2011.
- Mae'r Cyngor yn bwriadu atgyfnerthu'r trefniadau craffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf ac mae'n cydnabod yr angen i atgyfnerthu rhai partneriaethau eraill a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith yr holl bartneriaethau.

**Mae trefniadau'r Cyngor i ddatblygu strategaeth a pholisi yn gydlynol ac mae'n parhau i wella'i drefniadau i reoli prosiectau ond mae'n cydnabod yr angen i ddangos sut mae'r trefniadau hyn yn cyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion**

37 Mae gan y Cyngor brosesau sefydledig ar gyfer gwneud polisïau a strategaethau'n gydnaws. Mae'r blaenoriaethau yn glir, ac maent yn gysylltiedig â'r strategaeth gymunedol, y strategaeth gorfforaethol, cynlluniau gwella, cytundebau ar ganlyniadau a chynlluniau busnes.

38 Yn ddiweddar cytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Gwella newydd ar gyfer 2010-11 sy'n dangos:

- sut mae'r strategaeth gymunedol 10 mlynedd a'i phum gweledigaeth a'i 30 o ddyheadau wedi'u cysoni â chanlyniadau'r cytundeb tair blynedd ar ganlyniadau a'r saith amcan allweddol ar gyfer gwella;
- bod y saith amcan allweddol ar gyfer gwella wedi'u llywio gan farn dinasyddion a rhanddeiliaid, ynghyd ag asesiadau perfformiad ac asesiadau risg y Cyngor, gwaith craffu a gwaith rheoleiddwyr;
- y canlyniadau lefel uchel a ddylai ddeillio o gyflawni pob amcan; a
- nifer o gamau gweithredu, mesurau a thargedau i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2011.

39 Mae gan y Cyngor canol corfforaethol cadarn a systemau sy'n cynhyrchu, yn casglu ac yn cefnogi'r gwaith o ddadansoddi a herio ystod o ddata. Mae'r Cyngor yn llunio cynlluniau a strategaethau cynhwysfawr, yn coladu gwybodaeth am wella ac yn cyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar y wybodaeth honno, yn mesur heriau ac yn cyflwyno adroddiadau ar welliant mewn nifer o ffyrdd.

40 Mae'r Cyngor yn cymhwyso chwe phrawf o welliant fel y dangosir yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2009-10. Mae coladu a chyflwyno adroddiadau ar ystod mor eang o ddata yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor gael budd o gyfuno a gwerthuso'r data ar welliant a gesglir ganddo i ddangos i ba raddau y mae'n cyflawni gwell canlyniadau.

41 Gallai hefyd gael budd o adolygu a herio'i gamau gwella, ei fesurau a'i dargedau er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn effeithiol â meysydd ar gyfer gwella ac yn arwain at well perfformiad gan wasanaethau a gwell canlyniadau.

42 Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor wedi cyflawni ei holl gamau gweithredu bron ar gyfer gwella yn gyson ac wedi sicrhau gwelliant parhaus mewn nifer o feysydd. Fodd bynnag gellid gwneud y cysylltiadau'n gliriach rhwng ei gamau gweithredu allweddol a'r mesurau a'r canlyniadau perfformiad penodol y mae'n ceisio'u cyflawni.

43 Mae'r Cyngor bob amser yn chwilio yn greadigol am gyfleoedd ariannu allweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei brosiectau. Mae wedi gwneud cynnydd da o ran gwella trefniadau rheoli prosiect ac mae'n cydnabod yr angen i'w hymgorffori yn llawn. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu i wella'i drefniadau rheoli grantiau i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau wedi arwain at welliannau ac nid yw ei drefniadau rheoli grantiau yn gadarn. Fel y cyfryw, oherwydd maint rhai o'r cynlluniau newydd hyn, ceir risg, os nad yw'r trefniadau hyn yn gwella, y caiff arian sylweddol ei adfachu.

44 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu mesurau sy'n dangos sut mae ei gamau gweithredu yn cyflawni gwell canlyniadau i bobl Sir Gâr.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran atgyfnerthu ei drefniadau i reoli pobl ac ystadau er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion yn llawn

45 Mae'r cyflymdra a'r momentwm o ran sicrhau cynnydd gwerthuso swyddi a statws sengl, ynghyd ag Undebau Llafur, wedi cynyddu'n sylweddol dros y misoedd diwethaf ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cyflawni cryn dipyn yn fwy i gwblhau'r broses hon erbyn mis Mawrth 2011.

46 Roedd y Cyngor yn cydnabod nad oedd ei drefniadau rheoli pobl na'i drefniadau o ran polisi yn cefnogi gwelliant mor effeithiol ag y gallent, a threfnodd y Prif Weithredwr adolygiad cymheiriaid mewnol. Nododd yr adolygiad rai cryfderau, ond yn ogystal nododd nifer o wendidau craidd.

- Roedd rhai o'r cryfderau allweddol ar lefel adrannol yn amlygu ymrwymiad staff, nifer o enghreifftiau o arfer da, cydnabyddiaeth allanol o arfer da, arweinyddiaeth adrannol gadarn ac effeithiol mewn mannau, a sgiliau arbenigol.
- Amlygodd rhai o'r gwendidau allweddol ar lefel adrannol nad oedd cyfeiriad y gwasanaeth yn glir, yn gydlynol nac yn strategol ac nid oedd y gwasanaeth yn cefnogi ei gwsmeriaid yn effeithiol na yn ymgysylltu â hwy'n effeithiol.

47 Er bod gwell cyfeiriad bellach, nid yw strategaeth Adnoddau Dynol wedi'i datblygu o hyd. Mae'r cynllun adrannol a chynllun busnes y gwasanaeth yn nodi'r gwelliannau i'w cyflawni er mwyn gwella trefniadau rheoli pobl ymhellach.

48 Dangosodd ein hadolygiadau o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor, er ei fod yn rheoli ei fflyd yn dda, fod gwendidau'n bodoli o ran rheoli tir ac adeiladau, ac nid oedd ganddo gynllun rheoli asedau. Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwella'i drefniadau i reoli eiddo. Mae ei Gynllun Gwella newydd yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu blaenoriaethu gwelliannau yn y maes hwn i'w helpu i wneud gwell defnydd o'i adnoddau - sef un o'r saith amcan allweddol ar gyfer gwella. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys y canlynol:

- adolygu a chyhoeddi Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol diwygiedig;
- gwella data eiddo'r Cyngor;
- cynnal adolygiad o asedau sy'n seiliedig ar ardaloedd;
- rhesymoli adeiladau i leihau costau ac i ryddhau asedau i'w gwaredu er mwyn ariannu gwaith gwella cyfalaf;
- gwella mynediad i bobl anabl i adeiladau'r Cyngor; a
- datblygu System Gwybodaeth Rheoli Eiddo'r Cyngor ymhellach i sicrhau mwy o gwmpas a chywirdeb.

49 Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a ellir sicrhau buddiannau ac enillion effeithlonrwydd drwy reoli ei holl asedau (fflyd, adeiladau a thir, TGCh) yn strategol gyda'i gilydd.

